# <u>Newid eich Trefniadau Gwaith</u>

## Cyflwyniad

Os byddwch yn newid eich trefniadau gwaith, gall gael effaith ar eich buddion pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Os ydych yn penderfynu gweithio llai o oriau neu gymryd swydd â chyflog is, efallai bydd eich buddion pensiwn yn cael eu heffeithio.

## Sut bydd eich pensiwn yn cael ei effeithio os ydych yn newid eich oriau?

Mae eich pensiwn blynyddol o dan y cynllun **Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio** (y cynllun **CARE**) o 1 Ebrill 2014 yn seiliedig ar y gwir gyflog pensiynadwy rydych wedi ei dderbyn yn ystod Blwyddyn y Cynllun (o 1 Ebrill i 31 Mawrth) a'r gyfradd cronni o 1/49fed (neu 1/98ain os yn yr adran 50/50). Po fwyaf yw eich gwir gyflog pensiynadwy, po fwyaf fydd eich croniad pensiwn yn ystod blwyddyn y cynllun, ond os byddwch yn dewis gweithio llai o oriau, bydd eich gwir gyflog pensiynadwy yn llai, sy'n golygu y bydd y pensiwn a gronnwch yn llai.

Os daethoch yn aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2014, NI FYDD unrhyw newid yn eich oriau gwaith o hyn ymlaen yn effeithio ar y buddion rydych wedi eu hadeiladu hyd at 31 Mawrth 2014, sef eich **buddion Cyflog Terfynol**. Pan fyddwch yn ymddeol, bydd y buddion hyn yn seiliedig ar eich <u>cyflog pensiynadwy cyfwerth llawn amser</u> (ac eithrio unrhyw oramser sydd ddim yn gytundebol).

### Enghraifft

Ar hyn o bryd mae Siân yn gweithio'n llawn amser ac yn cyfrannu o dan **Brif Adran** (1/49fed) y cynllun. Mae'n ystyried gostwng ei horiau i 29.60 yr wythnos (4 diwrnod yr wythnos). Ei chyflog llawn amser ar hyn o bryd yw £18,000, a fyddai wedyn yn gostwng i £14,400 pe bai'n gostwng ei

horiau. Pe bai hyn yn digwydd, bydd croniad pensiwn Siân yn cael ei effeithio fel a ganlyn.

Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa wedi'i gredydu yn ystod y Flwyddyn Cynllun fel aelod llawn amser:

1/49fed x £18,000 = **£367.35 pensiwn blynyddol**

Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa wedi'i gredydu yn ystod y Flwyddyn Cynllun os yw'n gweithio **29.60 awr yr wythnos** (4 diwrnod yr wythnos). (29.60 / 37.00 x £18,000 = £14,400)

1/49fed x £14,400 = **£293.88 pensiwn blynyddol**

£367.35 - £293.88 = gwahaniaeth o **£73.47** yn y croniad pensiwn blynyddol ar gyfer y Flwyddyn Cynllun

## Beth sy'n digwydd os caiff eich cyflog ei leihau neu ei gyfyngu?

Os daethoch yn aelod ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd gennych yr opsiwn i seilio eich **buddion Cyflog Terfynol** ar unrhyw un o gyflog pensiynadwy'r tair blynedd diwethaf (os yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf), neu cewch ddewis cyfartaledd o gyflog unrhyw 3 blynedd olynol o fewn y 13 blynedd diwethaf o gyflogaeth (yn gorffen 31 Mawrth). Fodd bynnag, bydd y pensiwn rydych yn ei gronni o 1 Ebrill, 2014 o dan y **Cynllun Cyfartaledd Gyrfa**, yn llai o ganlyniad i unrhyw ostyngiad / cyfyngiad yn eich tâl pensiynadwy.

## Beth fydd yn digwydd os dewiswch gymryd swydd sy'n talu llai o gyflog?

Bydd y pensiwn rydych wedi'i gronni yn eich cyflogaeth gynt yn cael ei gyfuno'n awtomatig gyda'ch cyflogaeth actif, oni bai eich bod yn gwneud y dewis i'w cadw ar wahân o fewn 12 mis.

Wrth symud i swydd gyda chyflog is, byddwch yn cronni llai o bensiwn o'r diwrnod rydych yn dechrau yn eich swydd newydd, gan y bydd y pensiwn a gronnwch wedi hynny yn cael ei seilio ar eich cyflog pensiynadwy newydd. Bydd hefyd yn cael effaith ar unrhyw

ychwanegiad salwch posibl a ddyfernir a'r grant marwolaeth sy'n daladwy os byddwch yn marw.

## Pa fuddion eraill fydd yn cael eu heffeithio?

Os byddwch yn ymddeol oherwydd salwch parhaol, efallai y byddwch yn derbyn ychwanegiad yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw eich salwch, sy'n seiliedig ar eich **Cyflog Pensiynadwy Tybiedig (CPT)**[1] ar y dyddiad y byddwch yn gadael.

Trwy leihau eich oriau gwaith yn wirfoddol, bydd unrhyw ychwanegiad salwch yn gyfrannol llai o ganlyniad. Am fwy o wybodaeth am y broses salwch, cyfeiriwch at y **ffeithlen Salwch**.

Os byddwch yn marw fel aelod actif o'r cynllun, bydd lwmp swm grant marwolaeth sy'n **3 gwaith eich CPT**[1] yn cael ei dalu yn unol â'ch Ffurflen Enwebiad Grant Marwolaeth, neu yn absenoldeb Ffurflen Enwebiad, i'ch Ystâd. Os ydych yn rhan amser, bydd eich CPT yn gyfrannol llai, sy'n golygu y bydd eich grant marwolaeth yn llai hefyd. Os ydych yn dymuno cynyddu eich Yswiriant Bywyd, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

*[1]Cyfartaledd o'r tâl pensiynadwy a dderbynioch yn y **3 mis cyflawn** (neu 12 wythnos os telir yn wythnosol) cyn eich dyddiad gadael / dyddiad eich marwolaeth: wedi'i uwchraddio a'i fynegi fel swm blynyddol*

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982
E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

## Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol.
Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Helpwr Arian: Choosing a financial adviser (moneyhelper.org.uk)